LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL LLAIS 2024-2028



uniondeb – person ganolog – cydweithio

# FFORMATAU HYGYRCH

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**

**Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.**

**Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Pwy ydym ni | 4 |
| Ein Staff | 4 |
| Ein Bwrdd | 4 |
| Ein Gwerthoedd | 5 |
| Pam mae gennym gynllun cydraddoldeb | 5 |
| Ymgynhoriad | 6 |
| Ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau cyfreithiol | 7 |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | 7 |
| Dyletswydd Economaidd–Cymdeithasol | 8 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 8 |
| Deddf yr Iaith Gymraeg 2016 | 9 |
| Cynlluniau gweithredu a chanllawiau Llywodraeth Cymru. | 9 |
| Ein hamcanion cydraddoldeb 2024–2028 | 10 |
| Ein Gwasanaethau – Amcan Cydraddoldeb 1 | 11 |
| Ein Pobl – Amcan Cydraddoldeb 2 | 13 |
| Ein Diwylliant – Amcan Cydraddoldeb 3 | 15 |
| Ein Ymgysylltu – Amcan Cydraddoldeb 4 | 17 |
| Monitro ac Adrodd | 19 |
| Cysylltu â ni | 20 |
| Diolch | 20 |
| Rhestr o dermau | 21 |

## Rhagair

Croeso i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–2028.

Fe wnaethom ddatblygu'r cynllun hwn yn unol â'n gwerthoedd o:

- Bod yn canolbwyntio ar bobl
- Cydweithio
- Bod yn sefydliad ag uniondeb uchel

Rydym yn egluro beth mae'r gwerthoedd hyn yn ei olygu i ni yn y cynllun. Mae Llais yn credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Fel y corff annibynnol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol rydym yn deall bod yn rhaid i'n dull gweithredu adlewyrchu anghenion unigol pobl Cymru. Gwyddom fod rhai pobl yn ei chael yn haws cael mynediad at wasanaethau a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed nag eraill. Rydym am newid hynny.

Drwy gydweithio â chyrff iechyd a gofal cymdeithasol, y rhai sy'n llunio polisïau, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol, rydym am godi eich llais fel bod eich llais yn cael ei glywed a gweithredu arno i wella eich profiad bywyd o wasanaethau ac i wneud canlyniadau'n deg yn Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae ein cynllun yn disgrifio'r amcanion yr ydym wedi'u gosod ar gyfer y 4 blynedd nesaf, i helpu Llais i ddod yn sefydliad mwy teg, amrywiol a chynhwysol. Rydym wedi ymrwymo i herio annhegwch, gwahaniaethu, a rhagfarn, ac i chwarae ein rhan yn llawn i wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol.

**Gweithgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
**Llais**

## Pwy ydym ni

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn cynrychioli eich barn ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gan sicrhau ein bod yn gwrando, gan weithio gyda chyrff y GIG, Awdurdodau Lleol Cymru, ac eraill i lunio a gwella gwasanaethau i bawb.

Rydym yma i helpu a darparu cyngor i unrhyw un sydd ag adborth ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac i'ch cefnogi i wneud cwynion os aiff pethau o chwith.

### Ein Staff

Mae gennym oddeutu 100 o staff a thîm cynyddol o wirfoddolwyr sy'n gweithio ar draws ein holl ranbarthau.
Mae gennym dîm cenedlaethol a 7 tîm rhanbarthol sy'n casglu eich profiadau. Maent yn cynnwys:

- Caerdydd a Bro Morgannwg
- Cwm Taf Morgannwg
- Gwent
- Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe
- Gogledd Cymru
- Powys
- Gorllewin Cymru



## Ein Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn gosod ein strategaeth, ac yn darparu craffu, trosolwg a llywodraethiant ar draws ein holl waith. Maent yn dwyn y tîm gweithredol i gyfrif ar gyflawni ein nodau, ein hamcanion a'n blaenoriaethau i fodloni'r gofynion a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 a'n dyletswyddau sector cyhoeddus ehangach.

## Ein Gwerthoedd

- **Person ganolog** – mae ein gwaith yn cael ei yrru gan bryderon pobl Cymru.

- **Cydweithio** – drwy gydweithio ar draws ein rhanbarthau, gyda'r cyhoedd ac eraill, gallwn helpu i leihau anghydraddoldebau a sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed.

- **Uniondeb** — rydym yn sicrhau ein bod yn onest ac yn atebol am bopeth rydym yn ei wneud ac mae'r 'pam' y tu ôl i'n penderfyniadau yn glir.

## Pam mae gennym gynllun cydraddoldeb

Rydym yn helpu i sicrhau bod eich lleisiau'n cael eu clywed. Mae'n bwysig i ni fod ein sefydliad yn hygyrch i bawb. Rydym yn deall ei bod yn haws i rai pobl gael gafael ar gymorth a theimlo eu bod yn cael eu clywed nag ydyw i eraill. Rydym am newid hynny a sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn gallu rhoi eu hadborth i helpu i lunio gwasanaethau a gwella iechyd a llesiant i bobl sy'n byw ym mhob rhan o Gymru.

Diben y Cynllun Cydraddoldeb hwn yw ein helpu i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'n rhanbarthau trwy fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae'r cynllun hwn hefyd yn ein galluogi i gyflawni ein hymrwymiad i'n staff, gwirfoddolwyr a'n Bwrdd, fel y gallant ddod â'u gwir hunain i weithio a helpu i lunio ein sefydliad.

Mae'r cynllun Cydraddoldeb hwn yn cysylltu â'n 'Cynllun Strategol' a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

## Ymgynghoriad

Datblygwyd ein cynllun Cydraddoldeb drwy gael sgyrsiau gyda'r bobl y mae ein gwaith yn effeithio arnynt, mae'r holl bethau hyn wedi ein helpu i lunio ein cynllun. Rydym wedi:

- Siarad â phobl Cymru i ddarganfod beth oedd yn bwysig iddynt a'u hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol.
- Clywed gan ein staff a'n gwirfoddolwyr am yr hyn sy'n bwysig iddynt drwy ein cynadleddau staff.
- Ymgynghori â sefydliadau sector cyhoeddus, cymunedol a gwirfoddol eraill.
- Edrych ar ystadegau ac adroddiadau gan gyrff eraill.

**Llesiant – mae'n golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'u bywyd a'r hyn maen nhw'n ei wneud.**

**Cydraddoldeb – dylai pawb gael eu trin yn yr un ffordd a chael yr un cyfleoedd.**

Tegwch – cydnabod nad ydym i gyd yn dechrau yn yr un lle, ac efallai y bydd yn rhaid i ni newid i wneud pethau'n fwy cytbwys i bawb.



## Ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau cyfreithiol

Mae tegwch, amrywiaeth a hawliau dynol wrth wraidd popeth a wnawn. Fel sefydliad, rydym am fynd y tu hwnt i'n dyletswyddau statudol yn unig i sicrhau bod eich lleisiau'n cael eu clywed fel cleifion ac fel pobl. Nod y cynllun hwn yw sicrhau cynnydd yn erbyn ein dyletswyddau cyfreithiol a'n cyfrifoldebau ehangach.



### Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i bob cyflogwr. Mae'n cynnwys cyfres o ddyletswyddau sy'n ceisio amddiffyn unigolion, gweithwyr ac eraill rhag gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru set o nodweddion na ddylid eu defnyddio i drin rhai pobl yn waeth nag eraill. Gelwir y rhain yn 'nodweddion gwarchodedig' ac maent yn cynnwys:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Mamolaeth/Beichiogrwydd
- Hil
- Crefydd a Chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni geisio atal gwahaniaethu, cynyddu cyfleoedd a pherthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a phobl nad ydynt.

Fel rhan o'r ddyletswydd hon, rhaid i ni ddangos ein bod wedi ystyried yr effaith debygol ar grwpiau gwarchodedig wrth i ni greu neu adolygu polisïau ac arferion. Rydym yn gwneud hyn drwy ddefnyddio Asesiad Effaith Integredig.

Mae gennym hefyd ddyletswyddau penodol i Gymru y mae'n rhaid i ni eu cyflawni.

## Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol

Nod y dyletswydd economaidd-gymdeithasol yw "sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol." Rydym yn cydnabod pwysigrwydd lleihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n golygu bod pobl dan anfantais oherwydd eu hincwm neu oherwydd llai o gyfleoedd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn golygu, fel corff cyhoeddus, bod yn rhaid i ni feddwl mwy am y tymor hir, dod o hyd i ffyrdd gwell o weithio gyda'n cymunedau, ein pobl, ein rhwydweithiau a'n partneriaid a helpu i atal problemau trwy ddefnyddio dull mwy cydlynol, gan weithio tuag at y 7 nod llesiant i Gymru.



## Deddf yr Iaith Gymraeg 2016

Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fel sefydliad ac fel cyflogwr mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw un yn gallu siarad â ni yn Gymraeg a'n bod yn parhau i annog defnydd o'r Gymraeg. Gellir dod o hyd i'n hysbysiad cydymffurfio ar gyfer Safonau'r Gymraeg yma.



**Anffafriaeth.**
Mae hyn yn golygu trin rhai pobl yn annheg neu'n wahanol i bobl eraill oherwydd eu hil, rhyw, oedran, anabledd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol neu famolaeth.

**Anfantais economaidd-gymdeithasol.**
Mae hyn yn golygu na fydd rhai pobl yn cael yr un mynediad at gyfleoedd ag eraill oherwydd pethau fel incwm isel, llai o gymwysterau, neu dai o ansawdd gwael.

## Cynlluniau gweithredu a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Bydd ein strategaethau a'n cynlluniau yn parhau i adlewyrchu ein cyfrifoldebau o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028, Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol, a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

Byddwn yn parhau i fod yn bartner gweithredol wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu yn y dyfodol sy'n mynd i'r afael ag annhegwch ledled Cymru.

# Ein hamcanion cydraddoldeb 2024–2028

Mae ein hamcanion wedi'u llunio gan ein gweledigaeth, ein gwerthoedd, a'n hymgynghoriad. Bydd y cynllun hwn yn cael ei gyflawni ar draws y sefydliad dros y pedair blynedd nesaf. Rydym i gyd yn gyfrifol am sicrhau bod ein hymrwymiad i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae ein hamcanion wedi'u rhannu mewn i 4 maes:

| | |
|---|---|
| **Ein Gwasanaethau** | **Ein Pobl** |
| **Ein Diwylliant** | **Ein Ymgysylltu** |



# Ein Gwasanaethau – Amcan Cydraddoldeb 1

Datblygu'r ffordd rydym yn cydweithio â byrddau a chyrff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i helpu i greu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol mwy cysylltiedig.

## Rheswm

- Mae pobl Cymru'n teimlo bod newid yn gweithio'n well gyda'i gilydd, ac maen nhw eisiau newidiadau radical i helpu i wella gwasanaethau.
- Mae diffyg dulliau gweithio cydgysylltiedig, cyd-weithio a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn golygu canlyniadau iechyd gwaeth i unigolion.
- Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu llawer o heriau cymhleth, rydym yn deall bod angen i ni fod yn rhan o sgwrs ehangach ynghylch sut olwg sydd ar system gofal iechyd ganolog.
- Trwy gysylltu â'n gilydd a gweithio gyda'n gilydd, gallwn hyrwyddo Cymru iachach a mwy cydlynus gan leihau anghydraddoldeb canlyniadau.

## Camau Gweithredu a Gynlluniwyd

- Sefydlu a/neu wella perthnasoedd gyda'r holl fyrddau iechyd a gofal cymdeithasol a chyrff yng Nghymru i gysylltu rhwydweithiau. Gweithio gyda'n gilydd i gynyddu'r siawns o lwyddo i leihau anghydraddoldeb ac annhegwch i bobl Cymru.
- Gweithio gydag eraill i leihau 'blinder ymgynghori' a chael adborth gwerthfawr, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r rhai sy'n cael eu clywed yn llai.
- Gweithio gydag arbenigwyr a'r rhai sydd â phrofiad byw wrth ddatblygu gwasanaethau a allai effeithio ar unrhyw nodwedd warchodedig neu grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol i sicrhau arfer da.
- Ymwreiddio Asesiadau Effaith Integredig erbyn 2026 i sicrhau bod ein penderfyniadau yn deg, ac mae modd cael mynediad i'n gwasanaethau gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth i gefnogi ein gwaith. Darperir hyfforddiant ac arweiniad ychwanegol i sicrhau bod ein pobl yn hyderus ar sut i'w cwblhau.

## Canlyniadau Cydraddoldeb disgwyliedig



Mae llais ac asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill mewn sefyllfa i sefydlu grŵp cysylltiedig a all lywio amcanion cydraddoldeb traws-rwydwaith a llunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae gan ein polisïau a'n harferion Asesiad Effaith Integredig ac rydym yn dangos ein bod wedi ystyried sut mae ein penderfyniadau yn cyflawni ein dyletswyddau statudol. Bydd unrhyw asesiadau sy'n dangos effeithiau sylweddol yn ein gallu i gyflawni ein dyletswydd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ac yn hygyrch mewn fformatau amgen ar gais.

Mae gennym gofrestr gydweithredu genedlaethol y gall unrhyw un ei defnyddio i sicrhau ein bod yn helpu ein gilydd ac yn gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru decach a mwy teg.

## Ein Pobl – Amcan Cydraddoldeb 2

Erbyn 2028 byddwn yn adolygu ein polisïau, ein harferion a'n dulliau gweithredu i sicrhau bod ein pobl, nawr ac yn y dyfodol, yn cael y cymorth a'r offer cywir sydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn gweithle teg a hygyrch.

### Rheswm

- Mae ein staff wedi dweud wrthym fod angen i ni wneud rhai newidiadau i'n prosesau pan fydd pobl yn ymuno â'n sefydliad i'w helpu i deimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth.
- Rydym yn gwybod bod rhwystrau gwahanol i wahanol bobl yn y gweithle. Er enghraifft, mae oedolion anabl yn llai tebygol o gael eu cyflogi nag oedolion nad ydynt yn anabl, ac mae ofn ymhlith pobl sydd â chefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o gael eu diswyddo'n afresymol gan eu cyflogwr. Rydym am sicrhau ein bod yn dileu'r rhwystrau hynny.
- Fel sefydliad newydd, mae ein Tîm Arwain a'n Bwrdd yn gwybod bod angen i'n polisïau a'n harferion weddu i bwy ydym ni a'u bod yn addas i'r diben.



## Planned Actions

- Dylunio a chyflwyno hyfforddiant wedi'i drefnu i'r holl staff a gwirfoddolwyr gan ganolbwyntio ar degwch, cynhwysiant a lles e.e. rhagfarn anymwybodol, sensitifrwydd diwylliannol, niwroamrywiaeth ac ati.
- Darparu hyfforddiant i'n rheolwyr i sicrhau bod ein polisïau yn cael eu defnyddio'n gyson ac mae ein pobl yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.
- Gwneud yn siŵr bod ein llwybrau ein hunain i godi pryderon yn glir ac yn hygyrch i'n pobl ac mae ein cyfathrebiadau yn annog ein staff i godi llais.
- Adolygu ac ail-ddylunio ein pecyn 'Cynefino' i sicrhau bod pob dechreuwr newydd yn gwybod beth rydym yn ei wneud, yr hyn y gallant ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl ganddynt fel rhan o ddiwylliant unedig, 'Un Llais'.
- Annog y defnydd o feddwl 'Cymraeg yn gyntaf', gan gefnogi ei gilydd i ddysgu a datblygu sgiliau newydd.
- Sicrhau bod yr holl staff yn cael adolygiadau personol rheolaidd sy'n canolbwyntio ar eu llesiant, eu datblygiad a'u profiadau yn y gweithle yn unol â'n gwerthoedd a'n fframwaith ymddygiadol.
- Creu cyfleoedd i staff gael mynediad at hyfforddiant mewnol neu allanol a/neu fentora i annog datblygiad personol a phroffesiynol.
- Adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn hawdd eu deall a chynnwys arfer da, gan weithio gydag arbenigwyr i sicrhau eu bod yn gynhwysol i wahanol bobl.

## Canlyniadau Cydraddoldeb disgwyliedig

Mae cofnodion hyfforddiant yn dangos cynnydd yn sgiliau Cymraeg ein staff. Mae adborth gan ein tîm cyfieithu a Chomisiynydd y Gymraeg yn dweud wrthym fod ein staff yn dilyn y prosesau cywir. Mae cofnodion yn dangos cynnydd, flwyddyn ar ôl blwyddyn, o staff yn cwblhau adolygiadau personol.

Mae rhaglen hyfforddi a mentora wedi'i sefydlu.
Anfonir cyfathrebiadau rheolaidd at yr holl staff a gwirfoddolwyr ar sut y gallant godi llais a mynegi eu pryderon.

Mae ein dechreuwyr newydd yn dweud wrthym fod ein proses Cynefino yn brofiad cadarnhaol a defnyddir unrhyw adborth i fonitro a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w datblygu ymhellach.

# Ein Diwylliant – Amcan Cydraddoldeb 3

Sefydlu diwylliant 'Un Llais' sy'n gynhwysol ym mhob rhanbarth, un sy'n hyrwyddo tegwch ac yn grymuso gweithlu cynrychioliadol.

## Rheswm

- Efallai bod gan ein rhanbarthau wahanol flaenoriaethau oherwydd bod ein cymunedau'n amrywiol, ond mae'n bwysig bod gennym ddiwylliant unedig 'Un Llais', lle mae pawb yn cynnal ein safonau a'n hymddygiad.
- Mae pobl Cymru eisiau cael pobl wahanol, gyda phrofiadau gwahanol, mewn swyddi gwahanol i wneud gwahaniaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym am arallgyfeirio ein pobl; rydym yn deall pwysigrwydd cael cynrychiolaeth dda a'r ystod o sgiliau a safbwyntiau gwahanol a ddaw yn ei sgil.
- Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth greu diwylliant cadarnhaol ac mae angen hyrwyddwyr ar draws ein sefydliad i annog sgyrsiau pwysig sy'n gwella diogelwch seicolegol i bawb.

## Camau Gweithredu a Gynlluniwyd

- Creu rhwydweithiau mewnol sy'n darparu mannau diogel i staff a gwirfoddolwyr rannu eu profiadau, codi eu barn, dysgu oddi wrth ei gilydd, ac ymgysylltu ag Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Darparu'r sgiliau i'n pobl fod yn 'wrthwynebwyr' a lleisio eu pryderon, gan helpu i hyrwyddo cynhwysiant y tu mewn a'r tu allan i'r gweithle.
- Diffinio'r hyn a olygwn wrth ymagwedd dim goddefgarwch tuag at wahaniaethu, rhagfarn, bwlio ac aflonyddu a sut y bydd hyn yn cael ei ymgorffori.
- Dathlwch wahaniaeth a hyrwyddo cynhwysiant drwy godi ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd mewnol ac allanol e.e. Amser i Siarad, Wythnos Gofalwyr, Diwrnod Menopos y Byd ac ati.
- Sefydlu cylchlythyr sy'n rhannu straeon cadarnhaol o bob rhan o'n rhanbarthau, gan dynnu sylw at y gwaith da a'r arfer gorau o bob rhan o'n sefydliad.

## Canlyniadau Cydraddoldeb disgwyliedig

Mae rhwydweithiau mewnol yn dangos cynnydd mewn ymgysylltiad ac mae aelodau'n hyrwyddwyr gweladwy ar gyfer Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae cofnodion yn dangos cynnydd mewn cwblhau hyfforddiant Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae data ac adborth yn adlewyrchu ymddygiad gwrthsefyll, e.e. disgyblu, cyfweliadau ymadael, arolygon ac ati.
Cyhoeddwyd datganiad dim goddefgarwch ar ein mewnrwyd a'n gwefan, gan wneud ein gwerthoedd a'n safonau ymddygiad yn glir erbyn Chwarter 4, 2024.

Mae gwahanol feysydd o'r sefydliad ac arbenigwyr wedi rhoi adborth cadarnhaol i ni ar ein polisïau a'n gweithdrefnau.

Mae calendr cynhwysiant wedi'i ddylunio a'i weithredu i hyrwyddo ymgyrchoedd erbyn Chwarter 2, 2024.

Mae gennym gylchlythyr rheolaidd gyda chyfraniadau gan staff a gwirfoddolwyr erbyn Chwarter 2, 2024.



## Ein Ymgysylltu – Amcan Cydraddoldeb 4

Ailgynllunio sut rydym yn casglu ac yn defnyddio'r data sydd gennym am ein pobl a'n defnyddwyr gwasanaeth erbyn 2027, i ddod o hyd i fylchau (yn yr hyn rydym yn ei wybod a gyda phwy rydym yn siarad) a datblygu ein gwasanaethau, gan annog ffyrdd newydd o weithio sy'n gwella cyfle tegwch i bawb.

### Rheswm

- Mae pobl yng Nghymru yn wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau cymorth .
- Mae pobl wedi dweud wrthym y byddent yn hoffi i ni ystyried y rhai a allai fod o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, siaradwyr Cymraeg, pobl hŷn, ceiswyr lloches a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.
- Bydd gwella sut rydym yn casglu data yn ein helpu i ddeall pwy mae ein gwasanaethau'n cyrraedd a dod o hyd i feysydd y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt fel bod y rhai sy'n cael eu clywed yn llai yn cael cyfle i ddweud eu dweud. Gallwn hefyd helpu eraill i wella llwybrau i bobl sydd angen codi pryder a chael gafael ar gymorth.
- Gall casglu'r data cywir am ein pobl a sicrhau ein bod yn ei ddefnyddio'n dda ein helpu i sicrhau bod gan ein gweithwyr fynediad teg at gyfleoedd. Bydd hefyd yn ein helpu i gynyddu amrywiaeth ein pobl, gan sicrhau bod lleisiau gwahanol yn arwain ein gwaith, gan ein helpu i adeiladu diwylliant cryfach, ymgysylltiol a grymus.

### Camau Gweithredu a Gynlluniwyd

- Adolygu sut rydym yn casglu data ar draws y sefydliad i sicrhau ei fod yn gyson ac yn gallu ein helpu i fonitro, canfod a mynd i'r afael â chanlyniadau gwael i'n defnyddwyr gwasanaeth a'n pobl.
- Ymgyrchoedd wedi'u trefnu i ddiweddaru ein gwybodaeth ac sy'n helpu staff i ddeall pwysigrwydd casglu data cydraddoldeb mewnol ac allanol i lunio ein sefydliad, nawr ac yn y dyfodol.
- Gweithio gydag eraill i sicrhau bod ganddynt lwybrau clir i bobl godi pryderon sy'n codi lleisiau pobl a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.
- Hyrwyddo ein gwasanaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau bod pobl yn gwybod pwy ydym ni, sut y gallwn eu helpu a sut y gallant gyfathrebu â ni mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw.

## Canlyniadau Cydraddoldeb disgwyliedig

Mae adborth gan y cyhoedd ac eraill yn dweud wrthym ein bod yn darparu gwasanaethau hygyrch o ansawdd uchel i bobl Cymru.

Rydym yn cadw data y gellir ei ddadansoddi a'i gymharu'n uniongyrchol ag ystadegau cenedlaethol i wella tegwch canlyniadau.

Mae gennym amrywiaeth ehangach o adnoddau Cymraeg ar gael i'n defnyddwyr gwasanaeth.

Mae ein cyhoeddiadau ar gael mewn fformatau/ieithoedd eraill ar gais, ar draws pob rhanbarth. Bydd cyhoeddiadau allweddol ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Pwyleg ac Arabeg, Braille, Iaith Arwyddion Prydain a fformatau Hawdd eu Darllen. Bydd fformatau ac ieithoedd eraill ar gael ar gais.



## Monitro ac Adrodd

Bydd ein cynnydd parhaus yn cael ei wirio gan ein Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd drwy ddiweddariadau rheolaidd.

Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol a fydd yn manylu ar sut yr ydym yn cyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb a nodir yn y cynllun hwn.

Bydd yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol yn cynnwys gwybodaeth cydraddoldeb am ein pobl a'n darpariaeth gwasanaeth. Mae hyn er mwyn dangos sut yr ydym yn cyflawni ein dyletswyddau cyffredinol ac i dynnu sylw at unrhyw wahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am ein gwahaniaethau Cyflog Rhwng y Rhywiau yn ein Hadroddiad Blynyddol a bydd unrhyw wahaniaethau a nodwyd dros amser yn cael sylw o dan Amcan 2 y cynllun hwn. Bydd unrhyw ganlyniadau yn cael eu cyhoeddi yn ein Hadroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol.

Gall y cynllun hwn newid dros amser a bydd yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu anghenion a gofynion ein rhanbarthau a'n pobl.



## Cysylltu â ni

Os hoffech roi adborth i ni ar y cynllun hwn neu os hoffech dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith arall, cysylltwch â ni yn:

ymholiadau@llaiscymru.org

Llais, 3ydd Llawr, 33–35 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9HB.

02920 235 558

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

Os ysgrifennwch atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

## Diolch

Hoffem ddiolch i'r cyhoedd, ein staff, a'n partneriaid o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol a helpodd ni i greu'r cynllun hwn. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb dros y pedair blynedd nesaf.



## Rhestr o dermau

**Gwahaniaethu** – mae hyn yn golygu trin rhai pobl yn annheg neu'n wahanol i bobl eraill oherwydd eu hil, rhyw, oedran, anabledd, statws priodasol neu famolaeth.

**Cydraddoldeb** – dylai pawb gael eu trin yn yr un ffordd a chael yr un cyfleoedd.

**Tegwch** – cydnabod nad ydym i gyd yn dechrau yn yr un lle, ac efallai y bydd yn rhaid i ni newid i wneud pethau'n fwy cytbwys i bawb.

**Diogelwch Seicolegol** – mae hyn yn golygu bod ein staff a'n gwirfoddolwyr yn teimlo'n ddiogel i gyfaddef, siarad a dysgu o gamgymeriadau, codi problemau a phryderon, cael help ac adborth, ymddiried yn eu cydweithwyr, a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel aelod o'u tîm a'r sefydliad ehangach.

**Anfantais economaidd-gymdeithasol** – mae hyn yn golygu bod rhai pobl na fydd yn cael yr un mynediad at gyfleoedd ag eraill oherwydd pethau fel incwm isel, llai o gymwysterau, neu dai o ansawdd gwael.

**Gwrthwynebydd** — yw rhywun sy'n sefyll dros berson sy'n cael ei fwlio, ei niweidio, neu'n cael ei drin yn annheg. Gall y gwrthwynebydd ofyn a yw'r person yn iawn, riportio'r ymddygiad i rywun arall neu os yw'n ddiogel, gallant ddweud nad ydynt yn credu y dylai'r ymddygiad fod yn digwydd.

**Llesiant** – mae'n golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'u bywyd a'r hyn maen nhw'n ei wneud.